Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfarfod y Bwrdd: 26 Mawrth 2021**

---

**EITEM AR YR AGENDA: [4]**

---

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Cymru Wrth-hiliol - Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. |
| **Diben y papur:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed i greu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac am waith y grŵp llywio. |
| **Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd:** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r papur ac ystyried ei oblygiadau ar gyfer gwaith allanol ac ar gyfer tîm staff Llywodraeth Cymru. |
| **Swyddog sy'n cyflwyno'r papur:** | Claire Bennett<br>Cyfarwyddwr – Cymunedau a Threchu Tlodi<br><br>Hannah Fisher<br>Uwch reolwr polisi – Hil, Ffydd a Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |
| **Papur wedi'i baratoi gan / clirio gan:** | Hannah Fisher<br>Uwch reolwr polisi – Hil, Ffydd a Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>Cliriwyd gan: Tracey Burke |
| **Ymgysylltu â'r TUS/ Viewpoint** | ***Amherthnasol*** |
| **Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:** | ***18/03/21*** |

## Cefndir

1. Mae llawer o bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn profi hiliaeth yng Nghymru yn rheolaidd.[1] Mae'n amrywio o elyniaeth lafar benodol ac ymosodiadau corfforol i ficro-ymosodedd, gwahaniaethu ystadegol, proffilio a hiliaeth sefydliadol.

2. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau dwfn a thrawmatig i unigolion sy'n cael eu dwysáu ymhellach gan ddiffyg cynrychiolaeth mewn perthynas ag arweinyddiaeth, prosesau democrataidd ehangach ac nyluniad a threfniadau llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus.

3. Mae diffyg cynnydd i roi terfyn ar hiliaeth a gwella cynrychiolaeth a chanlyniadau wedi tanseilio ymddiriedaeth mewn sefydliadau i sicrhau newid pendant ac wedi gweithredu fel rhwystr rhag sicrhau ymgysylltu cadarnhaol gan bobl a chymunedau.

4. Mae Fforwm Hil Cymru a sefydliadau cydraddoldeb hiliol eraill wedi galw am strategaeth annibynnol neu gynllun ar hil ers blynyddoedd lawer, sydd wedi'i lywio gan y profiadau uniongyrchol a amlinellir uchod. Mae pandemig Covid 19 a'i effaith anghymesur ar gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi dwysáu'r alwad hwn ac wedi dangos pa mor angenrheidiol ydyw.

5. Ym mis Mawrth 2020 ymrwymodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Mae'r gwaith datblygu ar y Cynllun wedi'i gwblhau a chyhoeddwyd y Cynllun at ddibenion ymgynghori ar 25 Mawrth 2021.

6. Datblygwyd y Cynllun drwy broses ailadroddol, sy'n cynnwys cyfnewid syniadau a gwybodaeth yn barhaus rhwng rhanddeiliaid, arweinwyr polisi, academyddion a'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol.

7. Mae'r broses hon wedi arwain at set glir o egwyddorion a fydd yn sail i'r Cynllun; egwyddorion sydd, mewn sawl ffordd, yn bwysicach na'r camau gweithredu thematig. Yr egwyddorion hyn yw cyd-lunio, gwrth-hiliaeth a chau'r bwlch gweithredu.

### Cyd-adeiladu

8. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiad cyflym o'r dystiolaeth a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru sydd wedi ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc, gan gynnwys academyddion o gefndiroedd Duon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru a thu hwnt.

[1] Wavehill – Dadansoddiad o weithgarwch Grant Ymgysylltu â'r Gymuned Llywodraeth Cymru (cyhoeddi yn yr arfaeth)

9. Yn ogystal â'r dystiolaeth ysgrifenedig, lluniwyd y Cynllun gan brofiad uniongyrchol tua 2,000 o bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae'r broses ddatblygu wedi cynnwys oriau o drafod ymysg arbenigwyr academaidd, swyddogion polisi, ymarferwyr a'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol.

10. Yn dilyn rhaglen gaffael lwyddiannus ddiwedd 2020, mae 17 o "fentoriaid cymunedol" bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ar sail llawrydd, i helpu i gynllunio a gweithredu'r Cynllun. Mae effaith y mentoriaid wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu'r model gwaith hwn er mwyn parhau i elwa arno.

11. Caiff y grŵp llywio sy'n goruchwylio datblygiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ei gyd-gadeirio gan yr Athro Emmanuel Ogbonna (awdur adroddiad Economaidd-Gymdeithasol BAME Covid-19) a'r Ysgrifennydd Parhaol.

**Gwrth-hiliaeth**

12. Mae manylion a graddfa'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn feiddgar, i adlewyrchu gweledigaeth o Gymru sy'n wrth-hiliol.

13. Mae cymryd y safiad hwn yn hanfodol bwysig i'n rhanddeiliaid Duon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gan ei fod yn darparu ar gyfer dealltwriaeth weithredol ac ymwybodol bod ein cymdeithas wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n eithrio cymunedau ethnig lleiafrifol.

14. Bydd llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt yn ystyried eu hunain yn hiliol ond mae gwrth-hiliaeth yn gofyn i ni wneud ymdrech ymwybodol a gweithgar i herio hiliaeth lle bynnag y gwelwn ni hynny. Nid yw sefyll ac aros yn dawel yn ddigon.

15. Mae cymryd safiad gwrth-hiliol yn gosod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar wahân i unrhyw ymyriad polisi arall o'r math hwn, naill ai o'r blaen yng Nghymru neu ledled y DU.

**Cau'r bwlch gweithredu**

16. Mae rhanddeiliaid yn glir bod llawer o bolisïau blaenorol a phresennol y Llywodraeth yn gryf ond â diffyg cymhelliant o ran eu gweithredu, gan arwain at ganlyniadau cyfyng neu weithredu aneffeithiol yn y gorffennol.

17. Mae'n bwysig nodi nad yw rhanddeiliaid yn gyffredinol yn gofyn am lawer o waith newydd. Mae nifer ohonynt yn blaenoriaethu gweithredu polisi sy'n bodoli eisoes ac yn rhoi gwerth ar lywodraethu effeithiol a sicrhau atebolrwydd dros arloesi newydd.

Ymatebir i'r blaenoriaethu hwn drwy'r bwriad i greu grŵp atebolrwydd a buddsoddi mewn ymarfer cwmpasu ar gyfer creu Uned Gwahaniaethau ar sail Hil ar gyfer Cymru.

18. O ganlyniad, mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn pwysleisio pwysigrwydd cau'r "bwlch gweithredu" er mwyn i ni allu cyflawni ein gweledigaeth gwrth-hiliol a chreu newid diwylliant go iawn.

19. Gydag amser, efallai y bydd hyn yn gofyn am gyflwyno sail ddeddfwriaethol i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd hyn ond mae'r Prif Weinidog wedi gofyn am ymarfer cwmpasu o'r ysgogiadau deddfwriaethol a allai fod ar gael. Yn y tymor byrrach, rhaid i ni ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i ni (cytundebau ariannu, caffael, telerau ac amodau, dangosyddion perfformiad etc) i gyflawni ein huchelgais a gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid fel cyd-berchenogion y Cynllun, er mwyn sicrhau atebolrwydd.

20. Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, sy’n seiliedig ar yr egwyddorion hyn, yn ymdrin â'r themâu canlynol sy’n ymwneud â pholisi ac yn cynnwys camau gweithredu a restrir o dan bob thema:

- iechyd a gofal cymdeithasol,
- addysg,
- cyflogaeth ac incwm,
- arweinyddiaeth a chynrychiolaeth,
- y system cyfiawnder troseddol
- tai a llety.
- diwylliant, y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth
- democratiaeth leol
- y Gymraeg
- yr amgylchedd
- partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ac entrepreneuriaeth fel rhan o’r thema incwm a chyflogadwyedd

**Materion i'w hystyried**

21. Fel sefydliad, bydd yn bwysig bod thema arweinyddiaeth a chynrychiolaeth (yn benodol) yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei hystyried a'i gweithredu er budd yr holl staff. Dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr ag ystyried canfyddiadau'r adroddiad mewnol "Rhedeg yn erbyn y Gwynt" a'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

22. Mae gan y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol oblygiadau sefydliadol ac allanol i Lywodraeth Cymru a bydd y papur hwn yn ceisio dangos y ddau.

23. O fewn y Cynllun rydym yn ailadrodd ein hymrwymiad (a amlinellir yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-2026) i ddod yn weithle enghreifftiol sy'n adlewyrchu ein poblogaeth

pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac sy'n sicrhau recriwtio teg ac agored i'n cyrff penderfynu. Er mwyn gwneud hynny bydd angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig o fewn ein sefydliad ein hunain.

24. Rydym yn ymrwymo i adolygu a gwella ein prosesau recriwtio a dethol, a sicrhau ymsefydlu da, cymorth parhaus effeithiol a chyfleoedd i ddatblygu a chamu ymlaen.

25. Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, mae rhywfaint o waith mewnol wedi'i wneud mewn partneriaeth â'r rhwydwaith menywod sefydliadol a MESN. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at yr adroddiad "Rhedeg yn erbyn y Gwynt" a gyhoeddwyd yr wythnos hon hefyd.

26. Mae'r adroddiad hwnnw'n amlinellu'r heriau y mae menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru wedi'u profi yn y gweithle, gan gynnwys hiliaeth, ac yn tynnu sylw at brofiadau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb o brofiad cymunedau ehangach a amlinellir yng nghefndir y papur hwn.

**Goblygiadau o ran adnoddau**

27. O ystyried y flaenoriaeth a roddir i fynd i'r afael â'r bwlch gweithredu gan randdeiliaid, mae'n hanfodol bod cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei flaenoriaethu gan bob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a bod adnoddau'n cael eu dyrannu i (o leiaf) rhoi ar waith y camau gweithredu mwyaf brys yn y Cynllun.

28. Rydym yn buddsoddi £809,000 i gwmpasu a chefnogi sefydlu Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb ac Uned Gwahaniaethau ar sail Hil yn 2021-22.

*Goblygiadau ariannol*

29. Y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun yn drawslywodraethol. Mae rhywfaint o waith ar y gweill ac mae adnoddau wedi'u dyrannu o gyllidebau amrywiol i ymdrin â hyn. Fodd bynnag, pan fydd y Cynllun yn cael ei gytuno'n derfynol yn yr hydref, bydd angen dyrannu cyllideb ychwanegol ar gyfer y broses weithredu a bydd angen cynnal trafodaeth gyda'r Llywodraeth newydd ynghylch hyn yn y tymor nesaf.

*Goblygiadau i staff*

30. Byddai gan yr ymrwymiadau mewnol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun oblygiadau i staff Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod yr gefnogaeth a'r ymrwymiad yn cyrraedd bob lefel o'r sefydliad. Bydd cyflawni'r

nodau a'r camau gweithredu yn sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu, gan ddod ag arbenigedd, profiad a safbwyntiau newydd newydd a ddylai fod o fudd i'r tîm cyfan o staff.

**Risgiau**

31. Mae nifer o risgiau'n gysylltiedig â gweithredu argymhellion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r adrodidad Rhedeg yn erbyn y Gwynt. Nodir y rhain yn gryno isod:

*Adlach*

32. Yn anffodus, bydd rhai sy'n poeni bod canolbwyntio ar sicrhau cydraddoldeb hiliol rywsut yn rhoi grwpiau eraill dan anfantais ac eraill sy'n ystyried nad yw hiliaeth yn bodoli yn ein cymdeithas mwyach ac sy'n teimlo'n gryf iawn am unrhyw awgrym ei fod yn bodoli.

33. Rydym wedi gweld rhai arwyddion o hyn yn ystod digwyddiadau diweddar "Gadewch i Ni Siarad". Er mwyn lliniaru'r risg hon, mae angen neges gref ar draws y sefydliad y bydd gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn llwyddiannus a sicrhau cydraddoldeb hiliol o fewn y sefydliad o fudd i bob dinesydd ac aelod o staff ac yn sicrhau bod yr hawliau presennol mewn deddfwriaeth yn cael eu cydnabod ac y cedwir atynt.

*Peidio â chyflawni*

34. Bydd methiant i gyflawni yn erbyn nodau a chamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, yn enwedig yn y flwyddyn i ddeunaw mis nesaf, yn cael ei weld gan rhanddeiliaid a'r grŵp staff yn dystiolaeth nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi terfyn ar anghydraddoldeb hiliol a chreu Gymru gwrth-hiliol. Bydd hyn yn cael effaith niweidiol iawn ar ei henw da, yn enwedig mewn perthynas â staff Duon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, rhanddeiliaid, cymunedau a'u cynghreiriaid. At hynny, ni fydd gwelliant o ran cydraddoldeb hiliol yng Nghymru.

*Newid llywodraeth*

35. O ran y gwaith allanol yn benodol, mae blaenoriaethu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn dibynnu ar y Llywodraeth nesaf. Fodd bynnag, yn sefydliadol, gellir blaenoriaethu'r broses o weithredu'r Cynllun ac mae penderfyniad yr Ysgrifennydd Parhaol i flaenoriaethu'r materion hyn yn ei hamcanion personol ei hun wedi'u groesawu'n eang gan randdeiliaid.

**Cyfathrebu**

36. Bydd cyhoeddiadau’n ymwneud â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu gwneud drwy'r fewnrwyd ac mewn diweddariadau i MESN. Byddant yn digwydd ar yr un pryd â chyhoeddi "Rhedeg yn Erbyn y Wind"; adroddiad mewnol ar Black Lives Matter a phrofiadau staff o hil, rhyw a chroestoriadedd yn Llywodraeth Cymru.

37. Mae ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol wedi'i gyhoeddi'r wythnos hon ac mae cynllun cyfathrebu llawn ar waith i gefnogi’r cyfathrebu allanol.

**Materion cydymffurfio cyffredinol**

38. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio yn gysylltiedig â'r papur hwn.

**Argymhelliad/argymhellion**

36. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r papur ac ystyried ei oblygiadau ar gyfer gwaith allanol ac ar gyfer tîm staff Llywodraeth Cymru.

---

**Cyhoeddi**

Dylid cyhoeddi'r papur hwn yn llawn gan nad oes yr un o'r eithriadau yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn berthnasol.